

**Data Cyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Ystafelloedd, ystafelloedd gwely a gwres canolog**

	Sir Gaerfyrddin		Cymru		Cymru a Lloegr	
<b>Pob aelwyd</b>	<b>78,829</b>		<b>1,302,676</b>		<b>23,366,044</b>	
<b>Gwres canolog</b>						
Dim gwres canolog	1,821	2.3%	29,534	2.3%	624,095	2.7%
Â gwres canolog	77,008	97.7%	1,273,142	97.7%	22,741,949	97.3%
<b>Cyfradd deiliadaeth</b>						
Cyfradd deiliadaeth (ystafelloedd) o -1 neu lai	2,709	3.4%	67,264	5.2%	1,995,860	8.5%
Cyfradd deiliadaeth (ystafelloedd gwely) o -1 neu lai	1,947	2.5%	39,639	3.0%	1,100,606	4.7%
<b>Maint yr aelwyd ar gyfartaledd</b>		2.3		2.3		2.4
<b>Nifer yr ystafelloedd i bob aelwyd ar gyfartaledd</b>		6.0		5.7		5.4
<b>Nifer yr ystafelloedd gwely i bob aelwyd ar gyfartaledd</b>		2.9		2.8		2.7

**Diffiniadau**

**Maint yr aelwyd ar gyfartaledd:**

Mae maint yr aelwyd ar gyfartaledd mewn ardal yn cyfateb i gyfanswm nifer y preswylwyr arferol sy'n byw mewn aelwydydd yn yr ardal honno wedi'i rhannu â chyfanswm nifer yr aelwydydd yn yr ardal sydd ag un preswlydd arferol o leiaf. Ni fydd ymwelydd sy'n aros mewn cyfeiriad yn cyfrannu at faint y cartref hwnnw am ei fod yn cael ei gyfrif yn yr aelwyd y mae'n preswyllo ynddo fel arfer.

**Nifer yr ystafelloedd gwely i bob aelwyd ar gyfartaledd:**

Mae nifer cyfartalog yr ystafelloedd gwely fesul aelwyd ar gyfer unrhyw ardal yn cyfateb i gyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely mewn cartrefi yn yr ardal wedi'i rhannu â nifer yr aelwydydd yn yr ardal.

**Nifer yr ystafelloedd i bob aelwyd ar gyfartaledd:**

Mae nifer cyfartalog yr ystafelloedd fesul aelwyd ar gyfer unrhyw ardal yn cyfateb i gyfanswm nifer yr ystafelloedd mewn aelwydydd yn yr ardal wedi'i rhannu â nifer y cartrefi yn yr ardal.

**Ystafelloedd gwely:**

Nifer yr ystafelloedd gwely mewn cartref. Diffinnir ystafell wely fel unrhyw ystafell y bwriadwyd ei defnyddio fel ystafell wely pan gafodd yr eiddo ei adeiladu, neu unrhyw ystafell sydd wedi cael ei throï'n barhaol i'w defnyddio fel ystafell wely. Mae hefyd yn cynnwys pob ystafell y bwriadwyd ei defnyddio fel ystafell wely hyd yn oed os nad yw'n cael ei defnyddio fel ystafell wely ar adeg y Cyfrifiad.

Ystyrir bod gan fflatiau un ystafell a fflatiau stiwdio un ystafell wely.

**Gwres canolog:**

Nodir bod gan aelwyd wres canolog os yw ar gael mewn rhai ystafelloedd neu ym mhob ystafell (p'un a gaiff ei ddefnyddio ai peidio). Dosberthir gwres canolog yn ôl ei fath, er enghraifft un neu ragor o'r mathau - nwy, trydan (gan gynnwys gwresogyddion stôr), olew, tanwydd solet (er enghraifft coed neu lo) neu fathau eraill (gan gynnwys solar, nwy petrolewm hylifedig (LPG) neu nwy potel arall).

**Aelwyd:**

Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta. Rhaid i aelwyd gynnwys o leiaf un person sy'n byw fel arfer yn y cyfeiriad. Nid yw grŵp o breswylwyr byrdymor sy'n cyd-fyw â'i gilydd na grŵp o bobl mewn cyfeiriad lle mai dim ond ymwelwyr sy'n aros yn cael eu cyfrif fel aelwyd.

**Maint yr aelwyd:**

Mae maint aelwyd yn cyfateb i nifer y preswylwyr arferol yn yr aelwyd. Nid yw ymwelwyr sy'n aros mewn cyfeiriad yn cyfrannu at faint yr aelwyd honno am eu bod yn cael eu cyfrif yn yr aelwyd y maent yn byw ynddo fel arfer. Dim ond i aelwydydd ag un preswilydd arferol o leiaf y mae maint aelwydydd yn gymwys.

**Cyfradd deiliadaeth:**

Mae cyfradd deiliadaeth yn mesur p'un a yw llety aelwyd wedi'i orboblogi neu wedi'i danfeddiannu. Caiff y gyfradd ddeiliadaeth ei mesur mewn dwy ffordd - mae un yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd mewn llety aelwyd ac mae'r llall yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely. Defnyddir oedrannau aelodau'r aelwyd a'u cydberthnasau i bennu nifer yr ystafelloedd/ystafelloedd gwely sydd eu hangen, ar sail fformiwla safonol. Caiff nifer yr ystafelloedd/ystafelloedd gwely sydd eu hangen ei thynnu oddi wrth nifer yr ystafelloedd/ystafelloedd gwely yn yr aelwyd er mwyn pennu'r gyfradd ddeiliadaeth. Mae cyfradd ddeiliadaeth o -1 yn awgrymu bod gan gartref un ystafell/ystafell wely yn llai na'r hyn sydd ei angen, tra bod +1 yn awgrymu bod ganddo un ystafell/ystafell wely yn fwy na'r gofyniad safonol.

**Ystafelloedd:**

Nifer yr ystafelloedd mewn llety aelwyd. Nid yw'r diffiniad o ystafell yn cynnwys ystafelloedd ymolchi, toiledau, cynteddau neu bennau grisiau, neu ystafelloedd sydd ond at ddiben storio. Caiff pob ystafell arall, er enghraifft, ceginau, ystafelloedd byw, ystafelloedd iwtiliti, stydis ac ystafelloedd gwydr eu cyfrif. Os oes dwy ystafell wedi'u trosi'n un fe'u cyfrifir yn un ystafell. Ni chaiff ystafelloedd a rennir rhwng nifer o aelwydydd, er enghraifft cegin a rennir, eu cyfrif.